Y Troellwr

Bai ar gam / Parch at fywyd

Pan oeddwn i yn hogyn bach, flynyddoedd yn ôl erbyn hyn, byddai sŵn rhyfedd iawn yn dod o'r tir o gwmpas fy nghartref. Sŵn yr haf oedd hwn i mi, o ddechrau Mehefin tan tua chanol Gorffennaf. Sŵn tebyg iawn i rywun yn rolio rîl bysgota oedd o. Ac fel y byddai'n nosi y byddai'r sŵn yn dechrau. Ac yna mi fydda fo'n mynd ymlaen am oddeutu awr neu ddwy i'r nos. Aderyn oedd yn gwneud y sŵn. Aderyn oedd yn dod yr holl ffordd o Affrica i Gymru i dreulio'r haf ac i fagu teulu. Un noson rwy'n cofio mynd i chwilio amdano. Y gamp oedd ceisio dilyn y sŵn, gan nad oedd modd gweld dim gan ei bod yn dechrau nosi. Ond, wir i chi, fe'i gwelais yn hedfan o gangen i gangen. Roedd o'r un ffurf â chudyll. Yna dyma fo'n aros ar y gangen a dechrau trydar o'i hochr hi. Bob hyn a hyn byddai'n troi ei ben o'r naill ochr i'r llall. Ac wrth iddo droi ei ben byddai'r sŵn yn pellhau. Mae'n nhw'n dweud mai'r ceiliogod sy'n gwneud y trydar er mwyn i ddangos i geiliogod eraill mai nhw biau'r rhan yna o'r tir.

Dyma'r adeg, pan mae wedi dechrau nosi, maen nhw'n dal eu bwyd. Pryfed a gwyfynod ydi eu prif ymborth a'r adeg yma, yn y gwyll, mae digon ohonyn nhw ar gael. Mae'n nhw'n eu dal wrth hedfan o'r naill le i'r llall. Pig bychan sydd ganddo ond ceg fawr a honno'n llawn o flew. Mae'r blew yn bwysig rhag ofn i'r pryfed a'r gwyfynod fynd yn syth i lawr ei gorn gwddw a thagu'r aderyn.

Pan ofynnais i daid ffrind i mi am yr aderyn hwn, dywedodd nad oedd yr aderyn yn ffefryn gyda'r ffermwyr. Holais innau pam.

"Yn yr haf, fel hyn, pan fyddai'r gwartheg a'r geifr yn gorwedd am y nos byddai'r adar yn hedfan o'u cwmpas ac yn dechrau sugno'u llefrith," meddai.

"Sut oedden nhw'n gallu gwneud hynny?" gofynnais innau.

"Roedden nhw'n hedfan yn isel a phan fyddai'r anifeiliaid yn

gorwedd mi fyddai'n hawdd iawn mynd at eu tethi. Wyddost ti beth oedd un o'r enwau Saesneg am yr aderyn hwn?"
"Na," meddwn innau, "dim ond wedi dechrau dysgu ei enw'n Gymraeg ydw i."
"Wel, 'goatsucker' oedd un o'r hen enwau Saesneg arno a'r rheswm am yr enw hwnnw oedd ei fod yn sugno'r geifr."
Erbyn heddiw dydi pobl ddim yn credu hyn. Dydio ddim yn wir a doedd o ddim yn wir ers talwm chwaith. Y rheswm fod y troellwr yn hedfan o gwmpas yr anifeiliaid fel roedd hi'n tywyllu oedd i hel eu tamaid. Mae llawer o bryfed i'w gweld o gwmpas anifeiliaid yn wastad ac felly cael swper blasus oedd yr aderyn.
Am flynyddoedd cafodd y troellwr fai ar gam. Eto i gyd dal i ddod yn ôl a blaen o Affrica roedd er ei fod yn cael ei ymlid.

Diolch i Ti, O Dduw, am ryfeddodau byd natur. Amen.

✦ Pam mae'r aderyn yn cael ei enwi'n "troellwr" tybed?
✦ Fedrwch chi feddwl am greaduriaid eraill sy'n cael "bai ar gam"?